**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**6 TACHWEDD 2024**

Cofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid, ddydd Mercher, 6 Tachwedd 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**<br>Y Cynghorwyr: Bill Crease, Ian Hodge, Fran Lister, Gina Maddison, Ryan McKeown. Andrew Parkhurst, Carolyn Preece, Jason Shallcross a Dave Healey (dirprwyo ar ran Gladys Healey)<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Lisa Allen a Lynn Barlett |
| **ARSYLWYR:** | Y Cynghorydd Richard Lloyd |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Mared Eastwood (Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg a Diwylliant), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion), Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) a'r Uwch Reolwr (Newid Busnes a Chymorth) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd |

**39. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**40. MODEL GWELLA YSGOLION**

Bu i'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) gyflwyno adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau etholedig am y cynnydd sy'n cael ei wneud i greu Gwasanaeth Gwella Ysgolion newydd ar gyfer Sir y Fflint o 1 Ebrill 2025 ymlaen o ganlyniad i 'Adolygiad Haen Ganol' Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn adeiladu ar yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mai 2024.

Cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod yn deall y cymhlethdodau o ran creu model awdurdod lleol newydd ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion o fewn yr amserlenni disgwyliedig lle nad yw rhywfaint o wybodaeth hanfodol ar gael eto;

(b) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau bod ganddo hyder mewn cyflwyno'r model drafft i sicrhau cefnogaeth barhaus ac effeithiol i ysgolion Sir y Fflint i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddysgwyr;

(c) Bod y pwyllgor yn derbyn bod yn rhaid i'r model fod yn hyblyg ac y byddai'n destun newidiadau gan uwch swyddogion y Portffolio Addysg wrth i gynnydd gael ei wneud cyn y dyddiad cau o fis Ebrill 2025; a

(d) Bod y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn cael eu nodi i hwyluso datblygiad y model.

## 41. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.27am)

…………………………………………………

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home